EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

menter a busnes

Godro Defaid

Rheoli defaid godro ar gyfer cynhyrchu caws

Y BROBLEM:
Pa ffactorau sydd yn rheoli proffil bacterioloegol llaeth dafad?

NOD Y PROSIECT:
I ymchwilio sut gall y tri ffactor isod y mae modd eu rheoli effeithio proffil bacteriolegol y llaeth ar gyfer cynhyrchu caws heb ei basteureiddio.

1. Brîd y ddafad
2. Cyfnod o fewn y llaethiad
3. Ychwanegu seleniwm at y diet

Y GRŴP:
Alan Jones, Derwen Gam, Pwllheli; Matt Swarbrick, Fferm Henbant Bach, Caernarfon; Colin Keyse, Ty'n y Clwt Uchaf, Bethesda; Carrie Rimes, Cosyn Cymru, Bethesda.

AMSERLEN Y PROSIECT: Chwefror 2019 – Chwefror 2021

Gweithgaredd yn 2019

- Cymerwyd samplau llaeth unigol o 15 dafad Friesland a 15 dafad Lleyn trwy gydol eu cyfnod llaethiad i brofi os mae brîd y ddafad yn cael effaith ar ansawdd y llaeth.
- Ychwanegwyd seleniwm i ddwysfwyd 15 dafad Lleyn arall i brofi os yw'n cael effaith positif ar ansawdd a chyfansoddiad y llaeth.
- Cymerwyd swabiau o 30 o ddefaid i brofi os oes unrhyw gydberthynas rhwng poblogaethau bacteria'r pwrs a'r trwyn.

Canlyniadau o 2019

- Roedd y mwyafrif o famogiaid sydd â chyfrif celloedd somatig uchel yn cynhyrchu llaeth gyda chyfanswm is o solidau.
- Mae hyn yn dangos fod defaid gyda haint is-glinigol cronig a chyfrif celloedd somatig uchel yn cynhyrchu llaeth o ansawdd is a allai effeithio'n negyddol ar faint o gaws a gynhyrchir.
- Nid oes unrhyw gysylltiad positif i'w weld rhwng samplau bacteriolegol o'r trwyn ac o'r llaeth.
- Mae'r canlyniadau ar gyfer rhoi seleniwm ychwanegol i'r mamogiaid yn amhendant ar ôl y flwyddyn gyntaf.
- Cafodd grwpiau gwahanol o facteria eu canfod a fydd yn galluogi ffermwyr i gymryd camau priodol o ran hwsmonaeth er mwyn gwella bacterioleg y llaeth.

Mehefin 2019 – Cyfanswm Solidau Llaeth pob mamog unigol yn erbyn Cyfrif Celloedd Somatig (SCC)



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government